

Julie James AC  
Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip

8 Mai 2018

Annwyl Julie

O dan Reol Sefydlog 21.7, mae gennym ddisgresiwn a ddylid cyflwyno adroddiad ar is-ddeddfwriaeth nad yw ar ffurf offeryn statudol.

Yn 2016, adroddwyd ar sawl darn o is-ddeddfwriaeth o'r fath, gan gynnwys y ***Charging guidance to Ofwat (the economic regulator of the water sector) 2016*** (Saesneg yn unig) (**Canllawiau Codi Tâl 2016**).

Dygodd Llywodraeth Cymru Ganllawiau Codi Tâl 2016 i'n sylw yn yr un ffordd ag y dygir offerynnau statudol i'n sylw. Ymhellach, gosodwyd **Memorandwm Esboniadol** gyda Chanllawiau Codi Tâl 2016.

Fodd bynnag, ni ddygwyd dwy ddogfen a osodwyd yn 2017 i'n sylw yn yr un ffordd ag y dygir offerynnau statudol i'n sylw. Y ddwy ddogfen oedd:

- ***Datganiad o Amcanion a Blaenoriaethau Strategol ar gyfer Ofwat a gyhoeddwyd o dan adran 2B o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (y Blaenoriaethau Strategol)***;
- ***Canllawiau i Ofwat ar Godi Tâl am Ffioedd Datblygwyr, Ffioedd Swmpgyflenwadau a Ffioedd Mynediad (Canllawiau Codi Tâl 2017)***.

Ymddengys i ni fod y dogfennau hyn yr un mor ddeddfwriaethol eu naws â Chanllawiau Codi Tâl 2016. Er enghraifft:

- o ran y Blaenoriaethau Strategol, o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991: (a) mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori ar y Blaenoriaethau Strategol, (b) rhaid gosod drafft o'r Blaenoriaethau Strategol gerbron y Cynulliad, (c) ni chaniateir



cyhoeddi'r Blaenoriaethau Strategol os yw'r Cynulliad yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r drafft o fewn 40 diwrnod, a (d) mae dyletswydd ar Ofwat i roi sylw i'r Blaenoriaethau Strategol;

- o ran Canllawiau Codi Tâl 2017, cymhwyswyd yr un fframwaith deddfwriaethol i Ganllawiau Codi Tâl 2017 ag i Ganllawiau Codi Tâl 2016.

Yn ogystal â pheidio â'u dwyn i'n sylw, ni osodwyd Memoranda Esboniadol cysylltiedig.

Yna, yn 2018, gosodwyd y ddwy ddogfen a ganlyn ac fe'u dygwyd i'n sylw er nad ydynt mor ddeddfwriaethol eu naws â Chanllawiau Codi Tâl 2017 a'r Blaenoriaethau Strategol:

- *The Security and Emergency Measures (Water Undertakers) Direction 2017 (Saesneg yn unig);*
- *The Security and Emergency Measures (Water Undertakers) Direction 2017 (Saesneg yn unig).*

Ni osodwyd Memoranda Esboniadol mewn perthynas â'r ddwy set hyn o Gyfarwyddiadau.

Rydym yn derbyn nad yw bob amser yn hawdd penderfynu a yw rhywbeth yn ddigon deddfwriaethol ei naws i'w ddsbarthu fel is-ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, byddem yn croesawu eglurhad o'ch dull o osod is-ddeddfwriaeth nad yw ar ffurf offeryn statudol, gan gynnwys sut rydych yn penderfynu pryd i ddwyn dogfennau i'n sylw a phryd i lunio Memoranda Esboniadol.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir,



**Mick Antoniw**

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English

